| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn |
| **DYDDIAD** | Mawrth 29ain 2023 |
| **TEITL** | Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy |
| **PWRPAS** | Gwybyddu Aelodau |
| **AWDUR** | Swyddog AHNE Llŷn |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn yr wybodaeth |

## 1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys newyddion am brosiectau cyfalaf Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy AHNE Llŷn. Cynllun grant gan Llywodraeth Cymru i gefnogi prosiectau yn y Parciau Cenedlaethol a'r AHNE yw Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy (TCLlC).

1.2 Cafodd yr 8 Tirwedd Dynodedig yng Nghymru gyfle i gyflwyno prosiectau cyfalaf ar gyfer 3 blynedd (2022-25). Y themâu a osodwyd ar gyfer prosiectau oedd:

- Bioamrywiaeth ac adfer natur
- Dad-garboneiddio
- Cymunedau gwydn a gwyrdd
- Twristiaeth Gynaliadwy

1.3 Roedd disgwyl trawsdoriad o brosiectau gan bob ardal.

## 2.0 PROSIECTAU 2022-23 AHNE LLYN

2.1 **Cylchdaith Gyrn Goch** - Roedd y gylchdaith hon ar gau oherwydd fod y bont dros afon Hen wedi pydru ac yn amhosibl ei chroesi. Prif ffocws y prosiect felly oedd gosod pont newydd dros yr afon er mwyn ail-agor y gylchdaith a chreu mynediad i goedwig gerllaw a thir mynediad Gyrn Goch. Gwnaed gwelliannau eraill i'r daith hefyd trwy gyfnewid camfa am giât ac ail-wynebu rhan o'r llwybr. Cylchdaith eithaf byr yw hon ond mae'n darparu cyfle i gerdded drwy amryw o dirweddau yn cynnwys coedwig a thir heb ei wella efo amryw o blanhigion gwyllt.

2.2 **Fan drydan Warden yr AHNE -** Fel rhan o'r ymdrech i ddad-garboneiddio gwasanaethau'r AHNE a Chyngor Gwynedd fe ddefnyddiwyd cyfran o'r grant cyfalaf i brynu fan drydan ar gyfer Warden yr AHNE. Roedd hyn yn golygu cael gwared ar yr hen fan ddisl a lleihau ôl troed carbon y gwasanaeth. Defnyddir pwyntiau sydd yn swyddfeydd Ffordd y Cob, Pwllheli i wefru'r fan ac yn achlysurol rhai'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

2.3 **Tir Comin-** Prosiect cyffrous arall gan yr Uned yw asesu a gwella rhai tiroedd comin Rhos Botwnnog, Foel Gron Mynytho, a Horeb/Mynytho. Yn y flwyddyn ariannol 2022-23 fe wnaed arolygon ecolegol o'r tiroedd comin dan sylw. Yn y

blynyddoedd nesaf byddwn yn gweithredu mesurau i adfer/gwella cyflwr y tiroedd (e.e. gwella cynefinoedd, gwaredu rhywogaethau ymledol), gwella rheolaeth, lleihau risgiau tân ac ati. Mae'r prosiect hefyd yn anelu at wella mynediad a dehongliad i'r tiroedd yma.

2.4 **Y Ganolfan, Llithfaen -** Mae'r Ganolfan yn adeilad pwysig mhentref Llithfaen a'r ardal o amgylch. Hyd yn ddiweddar roedd cyfarfodydd a gweithgareddau amrywiol yn cael eu cynnal yma ac roedd dau fwrdd snwcer oedd yn cael eu defnyddio'n gyson. Yn ystod y cyfnod clo datblygodd problem efo pydredd sych yn Y Ganolfan a daeth yn amlwg fod angen gwelliannau sylweddol cyn y gellid ail-agor yr adeilad. Ym mlwyddyn 2022-23 bu i arian cyfalaf TCLC gyfrannu at arolwg cyflwr trylwyr o'r Ganolfan a llunio Cynllun Busnes ar gyfer y dyfodol.

2.5 **Gwelliannau Mynediad -** bu i'r grant cyfalaf TCLlC hefyd gefnogi gwelliannau mynediad ac arwyddo ar safleoedd arfordirol yn Mynydd Tir y Cwmwd, Porth Ysgo a Porthor.

2.6 **Terfynau Traddodiadol -** Prosiect ar y cyd gyda ardaloedd dynodedig eraill gogledd Cymru yw hwn. Ei bwrpas yw cynnal ac adfer terfynau traddodiadol – waliau cerrig, cloddiau a gwrychoedd. Yn ogystal â bod yn nodweddion diddorol ar y tirlun mae'r terfynau hyn yn gynefinoedd bywyd gwyllt pwysig. Fel rhan o'r prosiect bu Uned AHNE Llŷn yn cydweithio gyda Parc Cenedlaethol Eryri i gynnig grantiau i gynnal ac adfer terfynau traddodiadol yn ardal Madryn, Llŷn.

2.7 **Yr Awyr Dywyll -** Eto prosiect ar y cyd gyda thirluniau dynodedig eraill oedd hwn. Eisoes mae cryn waith wedi ei wneud i godi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd yr awyr dywyll trwy Bartneriaeth Nos. Mae'r prosiect hwn yn adeiladu ar hynny ac yn cynnwys penodi ymgynghorwyr i wneud arolygol o oleuadau mewn ardaloedd ac adnabod cyfleon i osod goleuadau newydd, llai niweidiol i'r awyr dywyll. Yn dilyn hynny bydd y prosiect yn symud ymlaen i wireddu'r gwelliannau er budd yr awyr dywyll a'r amgylchedd yn gyffredinol.

## 3.0 ARGYMHELLIAD

3.1 Derbyn y wybodaeth.